LC1124

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir sydd â chyllideb ddirprwyedig ac i'r awdurdod addysg lleol o ran ysgol sydd heb gyllideb ddirprwyedig neu uned cyfeirio disgyblion, adolygu'r trefniadau staffio yn yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion gyda'r bwriad o sicrhau bod rheoli a lleoli'r holl staff yn yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion yn defnyddio adnoddau'n effeithiol.

Gwnaed y Rheoliadau yn ddwyieithog ar 12 Gorffennaf 2005 o dan y Weithdrefn Weithredol a daeth i rym ar 14 Gorffennaf 2005.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

### 20 Medi 2005